

# DOLEN Y TAB – 12 10–11 Gorffennaf 2020

DYDD SUL  
12 Gorffennaf

**\*\*Oedfa'r Tabernacl\*\***

Bore Sul: Oedfa ar-lein fer yng nghwmni Sian Elin, Loreen Williams a Geraint Rees.

**10.30 Oedfa Ddigidol Undeb yr Annibynwyr**  
'Litani ein Hundod' yng nghwmni'r Parchedig Robin Samuel, Pen-y-bont ar Ogwr.

**11.00 S4C Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol**  
gyda Karen Owen, Pen-y-groes, yn arwain.

**12.00 Oedfa Radio Cymru**  
yng ngofal Criw Gŵyl Llanw.

## Cofiwch hefyd...

- am raglen radio *Bwrw Golwg* gyda John Roberts am 12.30
- fod *Cristnogaeth21* yn cyhoeddi e-fwletin ar eu gwefan bob bore Sul: [www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

## Yn Gwella

Da oedd derbyn y newyddion fod Keith Rowlands bellach gartref ym Mhentre'r Eglwys yn gwella wedi iddo dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Athrofaol Caerdydd yn gynharach yn yr wythnos.

## BWRDD Y CYFARWYDDWYR

Cynhelir cyfarfod rhithiol nesaf y Bwrdd nos Iau 16 Gorffennaf. Os oes unrhyw fater gennych i'w godi yn y cyfarfod, anfonwch air neu ffoniwch Gwilym Huws erbyn nos Fercher 15 Gorffennaf.  
[gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) /  
01443 225205

## Capel y Tabernacl Cyf.

### Rheolwr Safle

Gwahoddir ceisiadau am swydd ran-amser yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf.


Am fanylion pellach a thelerau'r swydd cysylltwch ag un o'r canlynol:

Mike West [mikealynwest@yahoo.co.uk](mailto:mikealynwest@yahoo.co.uk) / 01443 206833  
Gwilym Huws [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) / 01443 225205

## GAIR AM YR ATODIAD

Tybed a gaf fi fanteisio ar gornel fechan yn y *Ddolen* i ddiolch i bawb am eu negeseuon caredig ar y ffôn, trwy e-bost a thrwy'r dudalen Facebook yn diolch am yr Oedfa'r Dathlu ac am yr Atodiad i *Tafod y Tab*. Mae'n amlwg fod i'r Tabernacl le cynnes iawn yng nghalonau llawer o bobl ymhell ac agos. Mae'n bosib fod yr Atodiad yn cynnwys brychau nad wyf eto wedi eu gweld fy hun, ond fe dynnwyd fy sylw gan un cyfaill at lithriad ar waelod tudalen 19. Dyma gyfle felly i gadarnhau mai yn 1970 yr anhegwyd Anti Vi, ac nid yn 1070 fel yr honnir o dan y llun! Hoffwn egluro hefyd mai dim ond pan fo'r darlennydd ar-lein, yn darllen drwy dabled, ffôn neu gyfrifiadur, y mae'r dolenni rhyngweithiol yn weithredol. Mae 34 dolen i gyd, sef 8 fideo a 26 tudalen ar y we, i gyd ar gael yn syth drwy glicio ar y symbol sy'n gysylltiedig â'r hanesyn. Pan gaiff yr Atodiad ei argraffu fel cofrodd, bydd yn cynnwys rhestr o'r dolenni.

Emlyn



## CHWARAE PLANT BACH

**HENO**  
(NOS WENER, 10 GORFFENNAF)

**AM 7 O'R GLOCH**

Yn fyw i'ch cartrefi . . .

**CWIS BOB OED**  
**CAPEL Y TABERNAACL**

**CWISFEISTRI:**

Wendy  
a  
Ceri Anwen

**CROESO I BAWB YMUNO AR ZOOM!**

**ID: 9173521143**  
**Cyfrinair: 9bPfND**

## OFFERYN IACHAWDWRIAETH

Eirian Rees yw awdur 'Barn Annibynol' yn y rhifyn cyfredol o'r *Tyst* (sydd ar gael i unrhyw yn ddigidol ar hyn o bryd yn yr is-adran Adnoddau ar wefan yr Undeb [www.annibynwyr.org](http://www.annibynwyr.org)). Mae'r ysgrif yn dechrau'n ogleisiol iawn gyda'r cwestiwn rhethregol 'Ai dim ond ffowlyn wedi'i glorineiddio yw'r gwahaniaeth rhyngom ni a'r Unol Daleithiau?'. Yn briodol iawn, yn ystod yr wythnos a aeth heibio rydym wedi bod yn dathlu pen-blwydd y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol, ac mae Eirian yn ein hatgoffa bod datblygiad y Wladwriaeth Les yn ystod y 1940au yn dangos bod gwahaniaethau mwy o lawer na sut y byddwn yn trafod 'ffowls' rhyngom ni a'r UDA. Gan fod y gofal a geir bellach yn enw'r wladwriaeth yn deillio'n rhannol o esiampl ac ymdrechion eglwysi Cristnogol dros genedlaethau, mae'r eglwys wedi colli ei lle o fewn ein cymdeithas.

Neilltuir gweddill yr ysgrif i wyntyllu rhai o'r argyfyngau y bydd ein gwareiddiad yn eu hwynebu yn y dyfodol agos iawn. Eisoed fe welsom fod angen 'haelioni, caredigrwydd, gras a maddeuant' wrth y dunnell. Felly mae lle o hyd i'r eglwys fod yn offeryn iachawdwriaeth gan ofalu dros y tlawd a'r anghenus i 'fod yn forynion yr efengyl'.

Ym mhennod gyntaf cofiant gorchestol Hazel Walford Davies i Syr Owen Morgan Edwards (O.M., Gomer, 2020) adroddir sut y bu'n rhaid i'w deulu pan oedd yn Owen yn 11 oed adael Coed-y-pry oherwydd fod y tŷ ar fin cwmpo i'r llawr. Dymuniad y fam oedd cael symud y 'garreg lefn' oedd o flaen eu hen gartref a'i gosod ar bwys eu cartref newydd, sef Cae-rhys, ond gwrthodwyd ei chais gan asiant y tîrffeddiannwr. A'r rheswm a roddwyd am ei chais oedd mai ar y garreg hon y byddai'r bechgyn yn arfer chwarae bod yn bregethwyr: 'Ar y Sul, yn yr haf, câi pob un o'r plant bach gyfle i weddio neu i bregethu arni, tra bod y lleill yn gweiddi 'Amen...'. Mae yna ddamcaniaeth arall dros ei hawydd i symud y garreg i'w haelwyd newydd, ond awn ni ddim ar ôl y sgwarnog honno...

Erbyn heddiw, dynwared campau pêl-droedwyr neu chwaraewyr rygbi sy'n mynd â bryd bechgyn oed ysgol gynradd, ond nid felly yng nghanol y1860au! Byddai'n ddiddorol gwybod os oedd 'pregethwrs' ymhlith arwyr rhai o'n haelodau hyn ni pan yn ifanc.

## CASGLIAD BANC BWYD TAF ELÁI

Yn ddiweddar rydym wedi ail-afael yn ein casgliad ariannol ar gyfer Banc Bwyd Taf Elái. Mae mwy o bobl nag erioed yn dibynnu ar y Banc Bwyd yn ystod y cyfnod heriol hwn, a ninnau'n methu cynnal ein casgliad bwyd arferol oherwydd y cyfyngiadau presennol. Fe fyddwn ni'n dilyn y drefn ddiweddar o gyfrannu:

Trosglwyddiad banc:  
Cod didoli 30 – 96 – 72  
Rhif y cyfrif 03607499  
Cyfeirnod Banc Bwyd Taf Elái

Siec yn daladwy i: Capel y Tabernacl, Cyf gyda nodyn yn enwi Banc Bwyd Taf Elái. Anfoner at: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU.

---

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** a sefydlwyd dros gyfnod y clo i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org). Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rhannu erbyn nos lau yn wythnosol i: [gehpenqwert@yahoo.co.uk](mailto:gehpenqwert@yahoo.co.uk) / 01443 225205.*

**Cofiwch argraffu copi i'r aelodau hynny sydd heb gysylltiad â'r we.**